**CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD**
**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**3 Chwefror 2021, Trwy Fideo 7.30yh**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, L Roberts, D Gwyn, A Mummery, O Evans, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir) A. Le Cras (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng S Hughes. | |
| | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06.01.2021. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A. Mummery yn cynnig a Cyng D. Gwyn yn eilio |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Twll ger y lôn rhwng Eglwys Penmynydd a'r Groeslon** – Clerc i wneud ymholiadau pellach. |
| **4.2** | **Gor Dyfiant ar Lôn Garnedd Ddu -** Clerc wedi adrodd at Cyngor Cir Ynys Môn. |
| **4.3** | **Elusendai Penmynydd** - Cyng. E. Williams wedi gwneud cyswllt gyda Sue Van Leest sydd am holi'r Comiswn Elusennol am gyngor sut i symud ymlaen gyda newid trefn y pwyllgor. Swyddogion o'r Eglwys yn awyddus I gyd weithio. |
| **4.4** | **Pentre Coed -** Nodwyd bod yr hawl wedi'I ganiatau I bobl fyw yno trwy'r flwyddyn ers 2015.<br>Cynghorydd R. Williams wedi gyrru llythyr o ymateb at berchnogion neuadd Wen.<br>**I'w adael ar yr agenda erbyn mis Mawrth** |
| **4.5** | **Sbwriel ym maes parcio'r neuadd -** y broblem wedi'I ddatrys a'r sbwriel wedi'i symud.<br>Nodwyd bod difrod I gilpost giat y neuadd gan fan DPD.<br>**Y Cadeirydd wedi ebostio DPD.** |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | **Cais Cynllunio DAG/2021/3 Fferm Star.** Dim sylw |
| | **Adnoddau** |
| **5.2** | **Archebiant 2021/2022 -** Trafodwyd y gyllideb ar gyfer 2021/2022. Codwyd y costau yn unol a'r gofynion.<br>• |

| | |
|---|---|
| | Materion I'w ystyried am y flwyddyn canlynol:<br>• Clerc i ofyn i Neil Summers am gostau cynnal a chadw'r wefan.<br>• Datganodd Cynghorydd A. Mummery bryder am gyn lleied o arian sydd mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.<br>• Maes Parcio angen sylw.<br><br>Cynigwyd gan L. Roberts i godi'r archebiant i £8,000, eiliwyd gan N. Jones.<br>Cytunwyd i'r Clerc anfon cais at Cyngor Sir Ynys Môn am £8,000. |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | Archwiliad Ariannol 2019/2020<br>Derbyniwyd yr adroddiad terfynnol.<br>Clerc i anfon copi i N. Jones i'w arddangos ar yr hysbysfwrdd. |
| **6.2** | **Ymgynghoriad Ffiniau Etholiadol**<br>Aelodau i'w gwblhau ar Survey Monkey os dymunant. |
| **6.3** | **Cyfarfod Un Llais Cymru**<br>Nodwyd y prif bwyntiau:<br>• Trenau yn ôl i wasanaeth Sul oherwydd niferoedd isel yn eu defnyddio. Trenau ddim yn stopio yn Llanfairpwll ar hyn o bryd.<br>• Gostwng oed pleidleisio i 16 oed.<br>• Archwilio Ariannol Cynghorau Tref a Chymuned yn newid i drefn Newydd sef un archwiliad llawn a dau archwiliad rhannol dros tair mlynedd.<br>• Scottish Power yn edrych ar eu polisi torri coed. |
| **6.4** | **Mr Graham Owen - Cyn Glerc**<br>Y Cadeirydd wedi anfon llythyr ato yn diolch am ei waith fel Clerc dros y 10 mlynedd diwethaf a dymuno'n dda iddo. |
| **7** | **MATERION ARIANNOL**<br>Dim |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | **Pibell Ddwr - Porthaethwy -** heb dderbyn cyswllt pellach gan Dwr Cymru. Y gwaith i gychwyn rhwng Tachwedd 2020 a Mehefin 2021. |
| **8.2** | **Llythyr Virginia Crosbie AS** - Cytunwyd i yrru llythyr o ymateb. |
| **8.3** | **Amser Cyfarfodydd-** Cytunwyd i newid amser cyfarfodydd y Cyngor Cymuned i 7:00yh. |
| **9** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| **9.1** | Swydd Ddisgifiad y Clerc |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9.2** | Maes Chwarae Star. | | |
| | **Llofnod** | **Cadeirydd** | **03.03.21** |